

Ailosod Cwrs Moodle

Mae tudalennau Moodle yn aml yn cynnwys deunydd wedi cyfrannu gan fyfyrwyr ac aelodau staff yn ystod y flwyddyn – deunydd efallai y byddwch eisiau dileu cyn i'r grwp nesaf o fyfyrwyr ddefnyddio'r tudalen yn y flwyddyn i ddod. Yn debygol, gweler y deunydd yma o fewn gweithgareddau Moodle fel fforymau, cwisiau, sesiynau sgwrs, blogiau, dolenni aseiniad ac yn y blaen.

Mae'r teclyn ailosod cwrs yn Moodle yn eich galluogi i ailosod y gweithgareddau rhyngweithiol hyn heb effeithio'r cynnwys parhaol sydd gennych ar y dudalen fel dolenni i ffeiliau, testun, delweddau, sain a fideo ayyb.

Yn dilyn mae canllaw byr ar ddefnyddio'r teclyn ailosod i ddileu cyfraniadau o dudalen Moodle cyn dechrau'r flwyddyn academiaidd newydd. Gellir gweld dogfennaeth lawn ar gyfer defnyddio'r teclyn ailosod cwrs [yma](#) (dogfennaeth swyddogol Moodle – nid ar gael yn y Gymraeg).

1. Agorwch y dudalen cwrs / modiwl yr ydych eisiau ei ailosod.
2. Dileuwch unrhyw beth ar y dudalen sydd heb ei angen ar gyfer y flwyddyn academiaidd i ddod.
3. Dileuwch unrhyw ddolenni aseiniad Turnitin sydd yn hynach nag un flwyddyn. Nid yw'r teclyn ailosod yn gallu ailosod tudalennau sydd yn cynnwys dolenni Turnitin yn hynach na 365 diwrnod ac yn methu i redeg yn gywir os ydy'n dod ar ei traws, felly mae'n angenrheidiol eu dileu o'r dudalen. Mae dolenni Turnitin o'r flwyddyn flaenorol ar gael yn archif Moodle felly does dim angen eu cadw yn y Moodle gweithredol.
4. Yn y bloc Gweinyddiaeth Cwrs dewiswch 'Ailosod'



5. Ar y bar glas ar waelod y ffenest sydd yn agor dewiswch 'Dewis yr un diofyn'. Bydd hwn yn dewis yr opsiynau mwyaf cyffredin ac yn gwneud y tro yn y rhan fwyaf o amgylchiadau. Fel dewis arall os yn briodol, gallwch weithio drwy'r rhestr o opsiynau gan ddewis yn benodol y rhannau rydych eisiau eu hailosod.

The screenshot shows the Moodle 2015/16 interface. The top navigation bar includes 'Home', 'Cymraeg (cy)', 'Email', 'Useful Links', and 'Help'. The main header displays 'Swansea' and 'Moodle 2015/16'. The left sidebar shows 'Hafan', 'Ailo', and 'Ailosod cwrs'. The main content area is titled 'Modiwl Enghreifftiol' and 'Ailosod cwrs'. It contains a description of the module and a list of options. A blue box highlights the 'Dewis yr un diofyn' button, with an arrow pointing to it from the text in step 5.

6. Unwaith rydych yn hapus gyda'r eitemau sydd wedi'u dewis cliciwch 'Ailosod Cwrs' i gwblhau'r proses. Unwaith y mae wedi'i ailosod yn gywir bydd tudalen cadarnhad yn arddangos a gallwch glicio 'Bwrw ymlaen' er mwyn dychwelyd i'ch tudalen modiwl.

The screenshot shows the Moodle 2015/16 interface. The top navigation bar includes 'Home', 'Cymraeg (cy)', 'Email', 'Useful Links', and 'Help'. The main header displays 'Swansea' and 'Moodle 2015/16'. The left sidebar shows 'Hafan', 'Ailo', and 'Ailosod cwrs'. The main content area is titled 'Modiwl Enghreifftiol' and 'Ailosod cwrs'. It contains a table of options and a 'Bwrw ymlaen' button. A blue box highlights the 'Ailosod Cwrs' button, with an arrow pointing to it from the text in step 6.

Cydran	Tasg	Statws
Cyffredinol	Dileu digwyddiadau	IAWN
Cyffredinol	Dileu pob nodyn	IAWN
Swyddogaethau	Dileu pob swyddogaeth sydd wedi'i neilltuo'n lleol	IAWN
Pforymau	Dileu pob neges	IAWN
Cwislau	Wedi dileu cynigion ar y cwis	IAWN
Cwislau	Wedi dileu graddau cwrs	IAWN
Cwislau	User overrides deleted	IAWN
Cwislau	Group overrides deleted	IAWN
Ulyfr Graddau	Dileu pob gradd	IAWN

7. Os oes unrhyw broblemau yn codi yn y system wrth ailosod tudalen, bydd Moodle yn arddangos gwall-neges. Cymerwch gopi o'r sgrin a'i ddanfôn i dîm Moodle drwy moodle@uwtsd.ac.uk fel ein bod yn gallu eich cyngori.